# CADW EI ENW'N IRAIDD

## Cofio R.G.Berry

## gan T.J.Davies



Ni welais mohono erioed, eto fe'i gwelaf bob wythnos. Roedd wedi marw cyn i mi gael f'ordeinio, eto mae'n fyw. Mae'n rhaid fod ynoch rywbeth go arbennig, rhyw rin na ellir mo'i ddinistrio, i fod yn fyw wedi deugain mlynedd a mwy. Cofiaf pan yn grwt ffoli ar un o'i ddramâu, Noson o Farrug. Stori'r Mab Afradlon wedi ei haddasu yw hi, gyda chydig o newidiadau. Ni allaf gofio pa gwmni a'i cyflwynai. Un lleol, bid siwr. Gwyddwn mai gwr yn gwisgo'r enw R.G. Berry a'i sgrifennodd. Dyna bendraw fy ngwybodaeth am yr awdur. Pwy oedd? Beth oedd? Ym mhle y trigai?... Dim. Dim. Feddyliais i ddim yr adeg honno y cawn yr uchelfraint ymhen blynyddoedd o esgyn i'w bulpud. Yn wir, ar y pryd doedd gen i ddim bwriad i esgyn i unrhyw bulpud. Ac yn llythrennol ei bulpud e yw e. Fe a'i cynlluniodd, ac i'r sawl a'i gwelodd mae ar lun bocs y tyst mewn llys barn. Yno'n tystio mae'r pregethwr. Gellir dweud i R.G. Berry dystio am ddeugain mlynedd a gwneud hynny yn afaelgar a medrus. Âf am dro ar hyd Heol y Berry yng Ngwaelod -y-Garth. Pa nifer o weinidogion a goffawyd mewn enwau strydoedd? Chydig, a rhaid bod na rywbeth anghyffredin yn perthyn i gyfraniad y gweinidog hwnnw y gwêl ardal yn dda i gadw ei enw'n iraidd drwy fynnu parhau ei enw.

Un felly oedd R.G. Berry. Brodor o Ddyffryn Conwy oedd e. Daeth o'r Gogledd i'r De ond cadwodd ei acen. Pob clod iddo am hynny. Pentre bach cilhaul yw Gwaelod-y-Garth, yn byw ym mro'r cysgodion, a hawdd dychmygu ein bod yn camu'n ôl i'r cynfyd wrth droedio drwy Gwm-Llwydrew am y Gwaelod. Neu a bod yn gywir, i bentre felly y daeth Mr Berry. Yn ei dymor e gwelodd newid, a'r newid hwnnw wedi prysuro wedi iddo ymadael.

Nid yw bellach yn bentre. Llyncwyd e yn nghrafangau'r ddinas a throwyd pentre Cymraeg a Chymreig yn swbwrbia amhersonol. Ceir o hyd rai mewn oed sy'n weddillion o'r ddoe pell. Rhai a fagwyd o dan weinidogaeth Mr Berry ac yn ei hanner addoli. Ond daeth cenhedlaeth nad adnabu mo Joseff a'r Berry yn Heol Berry yn gymaint o ddirgelwch iddynt ag oedd e i mi pan welais ei ddrama un act. Pan gwymp pentre a dod yn 'desireable residential area' ar lyfrau'r gwerthwyr tai, yna mae ei gwymp yn fawr a therfynol. Be ddwedai Berry pe dychwelai yn awr? Byddai raid iddo ail addasu ei Noson o Farrug a chael mae'r brodorion yw'r rhai sy' ar y tu fas bellach. Nhw sy'n teimlo brath y barrug.

Rydw i wedi cael help, a diolchgar wyf am y gymwynas, i dreiddio i'r adnabyddiaeth o Mr Berry. Ma Huw Ethall yn ei gyfrol 'R.G. Berry' a gyhoeddwyd gan Wasg John Penry wedi rhoi cig a gwaed ar y cymeriad. Rwy'n credu fy mod yn ei nabod, o leia, fe allaf siarad nawr fel un a'i cwrddodd. Wrth gwrs, fedrwch chi ddim sgrifennu cofiant i ŵr fel Mr Berry heb fod y cofiant hwnnw yn gwlffyn teidi o hanes Cymru, o hanes pentre Gwaelod-y-Garth ac yn rhan o stori Ymneilltuaeth yn y broydd hyn, a Chymru. Mae gweld cyfnod a gynhwysodd ddau ryfel byd drwy lygad gweinidog o ddramodydd yn weld i galon pethe. Cyfrol bwysig yw hon a chyfrol sobor o ddarllenadwy. Byddai'n bechod i sgrifennu cyfrol sych am gymeriad mor ddiddorol, ac yn ddios ni ddaeth dim diflas o ysgrifbin Huw Ethall. Bu Mr Berry yn ffodus yn ei gofianydd. Mae ambell un sy'n gwrthod marw ac un o'r anfarwolion hynny yw ac oedd R.G. Berry, ac mae'r gyfrol yma wedi rhoi gwynt newydd yn ei hwyliau.

# YR EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol: Loreen Williams

SWYDDI NEWYDD

Llongyfarchwn Geraint Rees 51 Pen-y-waun ar dderbyn swydd yn athro Economeg yn Ysgol Gyfun Pencoed. Llongyfarchwn ei ddyweddi, Caroline Sowter hefyd ar ei phenodiad i Staff Ysgol Gadeiriol Llandâf. Bydd y ddau yn ymgymryd â'u dyletswyddau newydd ym mis Medi. Dymunwn yn dda i'r ddau.

Mae Rhodri Samuel, 7 Pen-y-waun wedi dechrau ar ei yrfa yn y Banc ers canol mis Mai. Mae'n gweithio yng nghangen Barclays yn Nhonysguboriau. Mae Rhodri'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Llanhari. Dymunwn yn dda iddo yntau yn ei yrfa newydd.

GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Wayne a Carol Williams 10 Pen-y-waun ar enedigaeth eu mab bychan, Ben. Brawd bach i Cheryl.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Mrs Maralyn Williams a'r teulu 3 Tir Coch, yn eu profedigaeth o golli mam yn ddiweddar.

HYFFORDDWYR O FRI

Pwy fuasai'n meddwl fod llwyddiant tim rygbi Dinas Caerdydd yn dibynnu i raddau helaeth ar bentref Yr Efail Isaf. Mae'r ddau hyfforddwr sef Roger Beard a Gary Samuel yn byw yma yn y pentref. Llongyfarchiadau i'r ddau am arwain y tim i fuddugoliaeth yn erbyn Casnewydd, gan gipio Cwpan Schweppes am y pedwerydd tro.

Ar ôl blynyddoedd lawer yn gysylltiedig â'r Clwb fel chwaraewr, ac fel hyfforddwr am bum mlynedd mae Gary wedi penderfynu cael seibiant am ychydig.

Mae'n debyg mai gafael mewn rhyw hobiau hamddenol megis cerdded neu garddio a wna yn ystod y misoedd nesaf yma. Mae'n siwr y bydd gardd drws nesa' fel Gerddi Bodnant o hyn ymlaen.

**LLYTHYRAU AT Y GOLYGYDD**
**Emlyn Davies**
**'Sycharth'**
**87, Maes-y-Sarn,**
**PENTYRCH**